

**RHESTR TALIADAU CYDNABYDDIAETH AELODAU
AM Y FLWYDDYN CYNGOR 2015/2016
YN UNOL Â PHENDERFYNIAD Y CYNGOR AR
23 GORFFENNAF 2015**



CYNGOR SIR Y FFLINT

RHESTR TALIADAU CYDNABYDDIAETH AELODAU AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2015/2016

1.00 Cyflwyniad

- 1.01 Yn unol â Rheoliad 4 o Reoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (PACGA), mae gofyn i awdurdodau gynhyrchu rhestr o'r taliadau y maent yn bwriadu eu gwneud i'w Haelodau a'u Haelodau cyfetholedig yn flynyddol. Rhaid i symiau'r taliadau hynny gyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno. Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi'r rhestr cyn pen 4 wythnos ar ôl ei gyfarfod blynyddol. Gall awdurdodau newid y rhestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn cyn belled a bod y newidiadau'n cyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.
- 1.02 Mae PACGA wedi penderfynu y dylid galw rhai taliadau i Aelodau'n gyflogau er nad yw'r Aelodau'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. Yn fwy cyffredin, caiff taliadau tebyg eu galw'n lwfansau. Bydd y ddogfen hon yn cyfeirio at gyflogau fel lwfansau.
- 1.03 Gwneir yr atodlen hon o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn cysylltiad â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (PACGA) ("Y Rheoliadau") sy'n berthnasol i daliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol yng Nghymru.

2.00 Diffiniadau

- 2.01 ***"Lwfans Sylfaenol (Cyflog Sylfaenol)"***
Dyma'r swm a bennir gan PACGA a delir i bob Aelod o'r Cyngor.
- 2.02 ***"Lwfans Uwch (Cyflog Uwch)"***
Dyma'r swm a bennir gan PACGA a delir i nifer gyfyngedig o Aelodau oherwydd y cyfrifoldebau penodol sydd ganddynt ac i'r Aelodau hynny mae'n cynnwys eu lwfans sylfaenol (cyflog sylfaenol).
- 2.03 ***"Lwfansau Dinesig (Cyflog Dinesig)"***
Dyma'r taliadau a roddir i Gadeirydd y Cyngor fel pennaeth dinesig a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor ac i'r Aelodau hynny mae'n cynnwys eu lwfans sylfaenol (cyflog sylfaenol).
- 2.04 ***"Lwfans Gofal"***
Dyma daliad a roddir i Aelodau ac Aelodau cyfetholedig am gostau trefnu gofal plant neu ddibynyddion sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal busnes swyddogol y Cyngor.

- 2.05 **“Lwfans Teithio”**
Dyma daliad a roddir i Aelod neu Aelod cyfetholedig am gostau teithio sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal busnes swyddogol y Cyngor.
- 2.06 **“Lwfans Cynhaliaeth”**
Dyma daliad a roddir i Aelod neu Aelod cyfetholedig am gostau angenrheidiol er mwyn cynnal busnes swyddogol y Cyngor. Nid yw'n daladwy ar gyfer cynnal busnes swyddogol o fewn ffiniau Sir y Fflint.
- 2.07 **“Lwfans Aelodau Cyfetholedig”**
Dyma daliad a roddir i aelodau cyfetholedig cyn belled a'u bod yn aelodau cyfetholedig statudol sydd â hawliau pleidleisio.

3.00 Lwfans neu Gyflog Sylfaenol

- 3.1 Telir lwfans / cyflog sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r awdurdod.
- 3.2 Yn unol â'r Rheoliadau, caiff cyfradd y lwfans /cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 3.3 Os yw swydd Aelod yn dechrau'n neu'n diwedd ar adeg heblaw am ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r lwfans /cyflog sylfaenol ar sail pro-rata.
- 3.4 Ni fydd mwy nag un lwfans /cyflog sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r awdurdod. Cyfradd bresennol lwfans /cyflog sylfaenol yw £13,300 y.f.

4. Lwfansau/Cyflogau Uwch a Lwfansau/Cyflogau Dinesig

- 4.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn derbyn lwfans/cyflog uwch fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 4.2 Yn unol â'r Rheoliadau, caiff cyfraddau lwfansau/cyflogau uwch a lwfansau/cyflogau dinesig eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 4.3 Dim ond un lwfans/cyflog uwch neu lwfans/cyflog dinesig sy'n daladwy i unrhyw Aelod o'r awdurdod.
- 4.4 Ni ellir talu lwfans/cyflog uwch na lwfans/cyflog dinesig i Aelod o'r awdurdod.
- 4.5 Mae pob lwfans/cyflog uwch a dinesig a delir yn cynnwys lwfans/cyflog sylfaenol.
- 4.6 Ni ellir talu lwfans/cyflog uwch i fwy na nifer yr aelodau a nodwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad

Blynyddol ac ni all fod yn fwy na phumdeg y cant o gyfanswm aelodau'r awdurdod, ac eithrio i gynnwys swyddog lwfans/cyflog uwch dros dro sy'n gweithio yn lle'r swyddog penodedig yn ystod absenoldeb teuluol.

- 4.7 **Ni all** Aelod o'r awdurdod sy'n derbyn lwfans/cyflog uwch dderbyn lwfans/cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) nac Awdurdod Tân ac Achub (ATaA) y mae ef/hi wedi'i enwebu ar ei gyfer.
- 4.8 Os yw lwfans/cyflog uwch neu lwfans/cyflog dinesig Aelod yn dechrau'n neu'n diwedd ar adeg heblaw am ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r lwfans /cyflog ar sail pro-rata.

5. Ethol i Ildio Hawl i Dderbyn Lwfans

- 5.1 Gall Aelod, drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol yn yr awdurdod, ethol ei hun i ildio unrhyw rhan o'i hawl i dderbyn unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn y rhybudd.

6. Gwahardd Aelod

- 6.1 Os caiff Aelod o'r awdurdod ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, caiff y rhan o'r lwfans/cyflog sylfaenol sy'n daladwy iddo/iddi ar gyfer y cyfnod hwnnw y bydd ef/hi wedi'i (g)wahardd yn cael ei dynnu'n ôl gan yr awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).
- 6.2 Os caiff Aelod sy'n derbyn lwfans/cyflog uwch ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol o'i swydd fel Aelod o'r awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, ni ddylai'r Awdurdod dalu unrhyw ran o lwfans/cyflog uwch yr Aelod am gyfnod y gwaharddiad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r gwaharddiad rhannol yn gysylltiedig ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r lwfans/cyflog sylfaenol.

7. Ad-dalu Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

- 7.1 Os oes unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi'i dalu i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod y mae'r Aelod dan sylw:
- (a) wedi'i wahardd neu ei wahardd yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf;

- (b) yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r awdurdod neu Aelod cyfetholedig; neu
- (c) heb hawl mewn unrhyw ffordd arall i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

Bydd yr awdurdod yn mynnu fod unrhyw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod tebyg yn cael ei ad-dalu.

8. Taliadau

- 8.1 Caiff pob lwfans/cyflog sylfaenol, dinesig ac uwch ei dalu drwy gredyd banc uniongyrchol misol fesul un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod.
- 8.2 Os bydd Aelod yn derbyn mwy o gyflog, lwfans neu ffi nag sydd ganddo hawl i'w dderbyn bydd yr awdurdod yn mynnu fod unrhyw ran sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 8.3 Mae pob taliad yn destun didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

9. Lwfans Gofal

- 9.1 Caiff lwfans gofal ei dalu i Aelod neu Aelod cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofal am blant neu oedolion dibynnol, cyn belled a bo'r Aelod yn gorfod talu am ofal tebyg wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau 'cymeradwy' gyda'r cyngor.
- 9.2 Mae lwfans gofal yn berthnasol i blant 15 oed neu'n iau ac unrhyw un arall y gall yr Aelod neu'r Aelod cyfetholedig ddangos fod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod cyfetholedig fwy nag un dibynnydd gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, cyn belled a bo'r Aelod yn gallu dangos bod angen gwneud trefniadau gofal ar wahân.
- 9.3 Gall Aelod Cymwys hawlio lwfans gofal am gostau gwirioneddol a chostau a dderbynebwyd hyd at y swm a benwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn **Atodiad 1**. Dylid hawlio pob lwfans gofal yn ysgrifenedig gan y Gwasanaethau Democrataidd gan nodi amseroedd, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Bydd derbynebau'n ofynnol ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol.

10. Absenoldebau Teuluol

- 10.1 Mae gan Aelodau hawl o dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldebau Teuluol i Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac os ydynt yn bodloni'r amodau rhagnodedig, mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

- 10.2 Yn ystod absenoldeb teuluol mae gan Aelodau hawl i gadw lwfans/cyflog sylfaenol waeth beth fo'u cofnod presenoldeb cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.
- 10.3 Os bydd swyddog lwfans/cyflog uwch yn gymwys am absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu lwfans/cyflog uwch yn ystod eu habsenoldeb.
- 10.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno bod angen penodi rhywun yn lle'r swyddog lwfans/cyflog uwch yn ystod ei absenoldeb teuluol bydd yr Aelod dirprwy yn gymwys i dderbyn cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.
- 10.5 Os bydd y dirprwy a delir yn golygu fod yr awdurdod yn mynd dros ben ei uchafswm o lwfansau/cyflogau uwch, caiff ychwanegiad ei ganiatáu dros gyfnod y ddirprwyaeth.

11. Taliadau Aelodau cyfetholedig

- 11.1 Telir ffi ddyddiol i aelodau cyfetholedig (gan gynnwys taliadau am hanner diwrnod) i aelodau cyfetholedig, cyn belled a'u bod yn aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.
- 11.2 Caiff taliadau aelodau cyfetholedig eu cyfyngu i uchafswm sy'n cyfateb i 15 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol.
- 11.3 Bydd taliadau'n cymryd i ystyriaeth amser teithio i mewn ac allan o leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 11.4 Mae'r Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu wedi'i ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, a chaiff ffi ei thalu ar sail y penderfyniad hwn.
- 11.5 Gall y Rheolwr Democratiaeth a Llywodraethu bennu o flaen llaw p'un a fydd cyfarfod yn para diwrnod cyfan a chaiff y ffi ei thalu ar sail y penderfyniad hwnnw hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn i bedair awr fynd heibio.
- 11.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel un sy'n para hyd at 4 awr.
- 11.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel un sy'n para dros 4 awr.
- 11.8 Caiff y ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ei nodi yn **Atodiad 2**.

- 11.9 Caiff y ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer aelodau cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, ei nodi'n **Atodiad 2**.

12. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

Rhaid i unrhyw gais i hawlio lwfans teithio neu gynhaliaeth gydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Atodiad 3.

13. Cydymffurfio

- 13.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel o ran monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodiad 4**.

14. Aelodau sy'n gwasanaethu mwy nag un awdurdod

- 14.1 Mae gan y Cyngor Sir hawl i enwebu rhai o'i gynghorwyr sir i wasanaethu ar awdurdodau cyhoeddus eraill megis Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Phanel yr Heddlu a Throseddau. Mae'r rhain yn gyrrff sylweddol sy'n goruchwyllo gwasanaethau cyhoeddus pwysig ac mae enwebeion y cyngor yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol o ganlyniad.
- 14.2 Mae rhai o'r cyrrff ychwanegol hyn yn talu lwfansau i gynghorwyr sy'n eu gwasanaethu. Caiff y lwfansau hynny eu gosod hefyd gan y Panel yn yr un ffordd â lwfansau cyfrifoldebau sylfaenol ac uwch. Caiff y lwfansau eu talu'n ychwanegol at y lwfans sylfaenol ac maent yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol a wneir.

RHESTR TALIADAU CYDNABYDDIAETH 2015-16

Aelodau sydd â hawl i dderbyn Lwfans/Cyflog Sylfaenol o £13,3000 y.f.

Cynghorwyr:-

Alex Aldridge	Joe Johnson
Bernie Attridge	Rita Johnson
Glyn Banks	Christine Jones
Haydn Bateman	Kevin Jones
Marion Bateman	Richard Jones
Chris Bithell	Colin Legg
Amanda Bragg	Phil Lightfoot
Helen Brown	Brian Lloyd
Derek Butler	Richard Lloyd
Clive Carver	Mike Lowe
David Cox	David Mackie
Paul Cunningham	Nancy Matthews
Peter Curtis	Hilary McGuill
Ron Davies	Ann Minshull
Adele Davies-Cooke	Billy Mullin
Alan Diskin	Tim Newhouse
Glenys Diskin	Mike Peers
Chris Dolphin	Vicky Perfect
Rosetta Dolphin	Neville Phillips
Ian Dunbar	Mike Reece
Andy Dunbobbin	Gareth Roberts
Brian Dunn	Ian Roberts
Carol Ellis	David Roney
David Evans	Tony Sharps
Ted Evans	Aaron Shotton
Jim Falshaw	Paul Shotton
Veronica Gay	Ian Smith
Robin Guest	Nigel Steele-Mortimer
Alison Halford	Carolyn Thomas
Ron Hampson	Owen Thomas
George Hardcastle	David Williams
David Healey	Sharron Williams
Cindy Hinds	David Wisinger
Ray Hughes	Arnold Woolley
Dennis Hutchinson	Matt Wright
Hilary Isherwood	

Aelodau sydd â hawl i Lwfansau/Cyflogau Uwch

Band 1

Swm

[gan gynnwys Lwfans
(Cyflog) Sylfaenol o
£13,300]

Arweinydd (Cyngorydd Aaron Shotton) £48,000
Dirprwy Arweinydd (Cyngorydd Bernie Attridge) £33,500

Band 2

Aelodau Cabinet £29,000

Cyngorwyr:-

Billy Mullin
Christine Jones
Helen Brown
Chris Bithell
Kevin Jones
Chris Bithell
Derek Butler

Band 3

Cadeiryddion Pwyllgorau:- £22,000
Pwyllgor Cynllunio a Rheoli Datblygu (Cyngorydd D
Wisinger)
Pwyllgor Archwilio (Cyngorydd T Newhouse)
Pwyllgor Trwyddedu (Cyngorydd L A Sharps)
6 Pwyllgor Arolygu a Chraffu
(Cyngorwyr R Hampson, C Ellis, I Roberts,
V Gay, D Rowland ac C Carver)

Band 4

Arweinydd y grŵp mwyaf na chaiff ei gynrychioli ar y
Cabinet (Y Cyngorydd Mike Peers) £22,000

Sylwer: Ni chaniateir Sir y Fflint i dalu mwy na 18 o gyflogau uwch.

Ni all unrhyw Aelod dderbyn mwy nag 1 lwfans uwch (cyflog).

Lwfansau dinesig

Cadeirydd y Cyngor (Y Cyngorydd Ray Hughes) £21,500
Is-gadeirydd y Cyngor (Y Cyngorydd Peter Curtis) £16,000

Noder: Mae'r symiau hyn yn cynnwys y Lwfans Sylfaenol o £13,300 a delir bob Aelod.

Hawl i Lwfans Gofal

Pob Aelod – Hyd at £403 y mis

Hawliau fel Aelodau Cyfetholedig Statudol

Cadeirydd Pwyllgor Safonau (Edward Michael Hughes)	£256 y dydd £128 am bob hanner diwrnod
---	---

Mae gan bob aelod cyfetholedig arall hawl i ffi ddyddiol o-	£198 y dydd £ 99 am bob hanner diwrnod
--	---

Aelodau cyfetholedig:-

Pwyllgor Safonau:-

Mr Edward Michael Hughes (Cadeirydd)
Mr Robert Dewey
Mrs Phillipa Ann Earlam
Mr Jonathan Duggan-Keen
Mr Kenneth Harry Molyneux

Dysgu Gydol Oes:-

Mrs Rebecca Stark
Mrs Rita Price
Mr David Hytch
Yr Hybarch John Thelwell
Mrs Janine Beggan

Pwyllgor Archwilio:-

Mr Paul Williams

Pwyllgorau Pensiwn:-

Mr Steve Hibbert
Cynghorydd Steve Wilson
Cynghorydd Huw Llewelyn Jones
Cynghorydd Andrew Rutherford

LWFANSAU TEITHIO A CHYNHALIAETH

Rhaid defnyddio ffurflen hawlio briodol i wneud cais am lwfans teithio neu gynhaliaeth a'i chyflwyno cyn pen 4 mis ar ôl y dyddiad y daeth yr hawl yn ddyledus. Ar wahân i deithio mewn cerbyd modur preifat, rhaid darparu derbynebaw priodol sy'n profi'r costau gwirioneddol gyda phob cais am lwfans teithio neu gynhaliaeth. Mae'r ffurflen gymeradwy ar gyfer hawlio lwfans cynhaliaeth yn cynnwys datganiad sy'n nodi nad yw'r Aelod/Aelod cyfetholedig wedi gwneud nac yn bwriadu gwneud cais arall mewn perthynas â'r mater dan sylw. Mae angen i'r Aelod neu'r Aelod cyfetholedig arwyddo'r ffurflen hawlio.

Dim ond ar gyfer y cyfrifoldebau swyddogol a restrir isod y gall Aelodau ac Aelodau cyfetholedig hawlio lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal:

- a) I fynychu cyfarfod gan y Cyngor neu unrhyw un o Bwyllgorau'r Cyngor neu unrhyw Gorff y mae'r Cyngor yn penodi neu'n enwebu ar ei gyfer, neu unrhyw Bwyllgor i Gorff tebyg.
- b) I fynychu cyfarfod unrhyw Gymdeithas o Awdurdodau y mae'r Cyngor yn Aelod ohono.
- c) I fynychu unrhyw gyfarfod arall a gynhelir dan awdurdod y Cyngor neu Bwyllgor i'r Cyngor neu Gydbwyllgor i'r Cyngor ac un neu fwy o Awdurdodau eraill.
- ch) Dyletswydd a ymgwymerir at ddibenion, neu mewn cysylltiad â, chyflawni swyddogaethau y Cabinet.
- d) Dyletswydd a ymgwymerir mewn cysylltiad ag Archeb Sefydlog sy'n mynnu bod Aelod neu Aelodau'n bresennol pan agorir dogfennau tendro.
- dd) Dyletswydd a ymgwymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor sy'n rhoi grym i'r Cyngor neu'n mynnu ei fod yn archwilio neu'n awdurdodi'r gwaith o archwilio adeilad.
- e) I fynychu unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygu a gymeradwyir gan y Cyngor neu ei Gabinet.
- f) I fynychu unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygu a gymeradwyir gan un o Bwyllgorau'r Cyngor neu gan y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog priodol trwy ymgynghori â'r Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor.
- ff) I fynychu unrhyw ddigwyddiad sy'n ofynnol gan reoliadau ariannol neu Archebion Sefydlog Contractau.
- g) I fynychu unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei awdurdodi/sy'n ofynnol gan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor (e.e. at ddibenion ymgynghori).
- ng) I fynychu unrhyw ddigwyddiad ar ran Swyddog y Cyngor ar fusnes Ward.
- h) I fynychu unrhyw ddigwyddiad ar ran Swyddog y Cyngor ar fusnes y Cyngor.
- i) I fynychu unrhyw ddigwyddiad i archwilio dogfennau cefndirol o dan Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972.

- j) I fynychu unrhyw ddigwyddiadau eraill a awdurdodir gan Bwyllgor, y Pwyllgor Gweithredol neu'r Cyngor.

Os caiff y dyletswyddau swyddogol uchod eu cynnal yn ardal y Cyngor, ni thelir lwfans cynhaliaeth oni bai ei fod yn ymwneud ag Aelod cyfetholedig sy'n byw y tu allan i ardal y Cyngor.

Os yw'r Aelod neu'r Aelod cyfetholedig wedi'i wahardd yn llawn neu'n rhannol o'i swydd fel Aelod neu Aelod cyfetholedig, o dan Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000, ni thelir lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r Aelod/Aelod cyfetholedig hwnnw am y cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae ef hi wedi'i (g)wahardd yn llawn neu'n rhannol rhag eu cyflawni.

Amodau Hawlio Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth:-

- 1) Caiff lwfansau teithio a chynhaliaeth eu talu am gostau angenrheidiol er mwyn cynnal busnes swyddogol cyn belled a nad oes modd iddynt gael eu hawlio gan Gorff arall bob amser
- 2) Os nad yw'r busnes swyddogol priodol wedi'i nodi (ac yn achos (ng) a (h) uchod y Swyddog(ion) a'r busnes dan sylw) ni ad-delir unrhyw arian
- 3) Ar wahân i achosion o hawlio am deithio mewn cerbyd modur preifat, rhaid dangos derbynebaw cyn y caiff yr arian ei ad-dalu
- 4) Mewn achos o hawlio am deithio mewn cerbyd modur preifat, dylid dangos nifer y milltiroedd ar y car ar ddechrau a diwedd y daith.
- 5) Os oes dau neu fwy o Aelodau'n teithio i'r un lleoliad y tu allan i'r Sir, dylid teithio ar drên neu mewn car cronfa/hurio oni bai fod y Prif Weithredwr, Prif Swyddog, Llywodraethu neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol wedi rhoi caniatâd o flaen llaw.
- 6) Os yn bosibl, dylai'r Cyngor archebu dulliau teithio o flaen llaw er mwyn cael:-
Gostyngiad
Ad-daliad TAW
Gwerth Gorau
Os nad yw'r dull teithio wedi'i archebu o flaen llaw, rhaid i'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog, Llywodraethu neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol ei gymeradwyo.
- 7) Os yn bosibl, dylai swyddogion sy'n teithio gydag Aelodau dalu'r holl gostau priodol a'u hawlio'n ôl trwy ddulliau swyddogol.
- 8) Os yw Aelod yn defnyddio ei gerbyd/cherbyd personol at ddibenion dyletswyddau cymeradwy, rhaid i'r cerbyd fod wedi'i yswirio ar gyfer defnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Cyngor ar gais.

Lwfansau Teithio:

1. Rhaid nodi'r ddyletswydd gymeradwy bob amser

2. Milltiroedd

(a) **Car Preifat**

Caiff nifer y milltiroedd perthnasol eu had-dalu ar y gyfradd sy'n briodol i gerbydau hyd at 999 cc waeth beth fo cynhwysedd ciwbig y cerbyd a ddefnyddiwyd, y gyfradd ar hyn o bryd yw 45c y filltir. Os caiff teithiwr/teithwyr swyddogol eu cludo, mae 5c y filltir arall yn daladwy am bob teithiwr ac yn yr achosion hynny rhaid nodi pwy yw'r teithiwr/teithwyr. Mae'r gyfradd y filltir yn berthnasol i uchafswm o 10,000 o filltiroedd y flwyddyn a 25c y filltir ar ôl hynny.

(b) **Car Cronfa**

Ad-delir cost TANWYDD A BRYNWYD ar ôl i dderbynebau gael eu dangos.

(c) Cyfradd ad-daliadau am deithio – beic modur 24c y filltir

(d) Cyfradd ad-daliadau am deithio – beic 20c y filltir

3. Trefniadau teithio eraill

Dylai'r Cyngor archebu a thalu costau trenau neu ddulliau eraill o deithio o flaen llaw. Yn yr achosion hynny lle mae archebion uniongyrchol neu drefniadau eraill yn cael eu hawdurdodi, ad-delir y costau gwirioneddol ar ôl i dderbynebau priodol gael eu dangos hyd at uchafswm pris tocyn dosbarth safonol perthnasol neu'r milltiroedd a deithiwyd mewn gwirionedd.

Lwfansau Cynhaliaeth

1. Dylid nodi'r busnes swyddogol. Ni thelir lwfans cynhaliaeth am fusnes swyddogol yn Sir y Fflint.

2. Dylid dangos pob derbynneb briodol gyda'r ffurflenni hawlio.

3. Dylid trefnu unrhyw lety dros nos trwy Dîm Gwasanaethau Aelodau'r Cyngor.

4. Ni thelir lwfans cynhaliaeth ar gyfer busnes swyddogol a gynhelir yn Sir y Fflint. Ar gyfer dyletswyddau cymeradwy a gyflawnir y tu allan i Sir y Fflint, nodir y cyfraddau isod.

5. Mae uchafswm o £25 ar gael am arhosiad dros nos, gan gynnwys brechwast gyda ffrindiau neu deulu tra'r ydych ar ddyletswydd gymeradwy.

6. Os yw'r Aelod yn tystio fod y gwariant yn angenrheidiol, ad-delir hyd at:

Brecwast £4.48	mwy na 4 awr cyn 11.00 am
Cinio £6.37	mwy na 4 awr lle mae rhan ohonynt rhwng 12.00 a 2.00 pm
Te £2.43	mwy na 4 awr lle mae rhan ohonynt rhwng 3.00 pm a 6.00 pm
Swper £7.64	mwy na 4 awr yn dod i ben ar ôl 7.00 pm

Ni ellir hawlio am de a swper ar yr un diwrnod, dim ond un o'r rhain y gellir eu hawlio.

Ni fydd unrhyw un o'r rhain yn daladwy os darperir y pryd dan sylw am ddim i'r Aelod yn y digwyddiad.

Os yw'r Aelod wedi gwario mwy na'r ffigyrau a roddwyd uchod, ad-delir y symiau'n amodol ar uchafswm o £28 y dydd.

Costau Llety

(a) Dylid nodi'r busnes swyddogol:-

(b) Ar wahân i amgylchiadau eithriadol a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr, Prif Swyddog, Llywodraethu neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, rhaid i'r Cyngor archebu pob llety o flaen llaw er mwyn cael:-

- Gostyngiad
- TAW
- Gwerth Gorau

Yn yr amgylchiadau hyn, nid oes ad-daliad yn berthnasol.

(c) Os yw'r prydau bwyd yn gynwysedig yn y llety neu'r cyrsiau/cynadleddau, ni ellir hawlio am y rhain ar wahân, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a gymeradwyir gan y Prif Weithredwr, neu Prif Swyddog, Llywodraethu neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol.

- (ch) Os caiff y llety ei archebu gan rywun heblaw am y Cyngor, rhoddir ad-daliad ar ôl dangos derbynebaw sy'n cynnwys manylion priodol.

A

Hyd at uchafswm o £150.00 y noson yn Llundain

neu £95.00 y noson mewn unrhyw le arall yn y DU.

A

Bod y Cyngor yn cael gwell gwerth am arian trwy'r trefniant hwn neu os mai'r trefniant hwn yw'r unig un ymarferol o dan yr amgylchiadau.

Cydymffurfio

- Bydd yr awdurdod yn trefnu bod y cyfanswm a delir i bob aelod ac aelod cyfetholedig mewn cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 30 Medi fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn dan sylw. Er mwyn sicrhau tryloywder bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer pob swydd sydd gan yr aelodau etholedig gyda phob gwasanaeth cyhoeddus.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldebau sylfaenol cynghorwyr a disgrifiadau o rolau swyddogion cyflogau uwch ar wefan y Cyngor, gan nodi'n glir y dyletswyddau a ddisgwylir.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi Rhestr flynyddol o Aelodau Tâl Cydnabyddiaeth ar wefan y Cyngor erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf ym mhob blwyddyn dan sylw.
- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r rhestr i Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf yn mhob blwyddyn dan sylw.
- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau/aelodau cyfetholedig yng nghyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a Phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae'r Aelod/aelod cyfetholedig yn hawlio ad-daliadau ar eu cyfer.
- Bydd yr awdurdod yn trefnu fod adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr Aelodau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Pan fydd awdurdod yn cytuno ar dâl dirprwyedig am absenoldeb teuluol bydd yn hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y ddirprwyaeth cyn pen 14 diwrnod ar ôl dyddiad y penderfyniad.